

# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

---

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

[cyngorybala@outlook.com](mailto:cyngorybala@outlook.com)

## Fc.Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

**7/4/2016**

**Presennol:** Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Edith Roberts, Dilys Evans, Dorothei Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Carol Rowlands, John C Williams, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

1. Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Alun Price ac Eluned Jones, Ivora Jones.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 3/3/16
5. Derbyniwyd adroddiad y Clerc o faterion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mawrth:
  1. Trafnidiaeth wrth y Parc Menter – gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at berchnogion y Parc Menter i ofyn am arwyddion clir
  - 5i Cyflwr Ysgol Tŷ Tan Domen – ni ddaeth ateb i lythyr y Cyngor parthed cyflwr y tir a'r adeiladau.
  - 5ii Ystadegau goryrru- derbyniwyd gwybodaeth fod 1200 o rybuddion i erlid oherwydd goryrru yn y dref wedi eu hanfon at yrrwyr yn ystod 2015.
  14. Parcio anabl: derbyniwyd neges gan y Gweinidog Edwina Hart fod parcio i'r anabl yn un o ystyriaethau arolwg diweddar o'r Stryd Fawr; disgwylir cyhoeddi adroddiad o'r arolwg yn fuan.
6. Sedd wag: cyhoeddir Rhybudd yn gwahodd etholwyr i roi eu henwau ymlaen ar gyfer eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref pan fydd y Cynghorwyr yn cyfethol un person i'r sedd wag.
7. Adroddiad y Cyngorydd Sir: dywedodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan fod maes parcio'r Plase wedi ei farcio a bod maes parcio'r Grŵn yn cael tarmac. Adroddodd ei fod wedi cael cyfarfod safle gyda'r Swyddog Gorfodaeth i geisio gwella taclusrwydd yn y dref. Gobeithir cael biniau sbwriel newydd wrth Heol y Castell. Mae tri pherson wedi eu dirwyo'n ddiweddar yn Y Bala am beidio clirio ar ôl eu cŵn ac mae'r Swyddog Gorfodaeth yn parhau i ymweld yn gyson er mwyn cadw golwg ar y sefyllfa.
8. Adroddiad o hyfforddiant Un Llais Cymru ar gyllid – cafwyd hyfforddiant gwerthfawr a chytunwyd i brynu dau lyfr a fydd yn ganllaw i'r Cynghorwyr a'r Clerc.

9. Adroddiad o'r cyfarfod yn Neuadd Buddug 14/3/16 am y toriadau sy'n wynebu Cyngor Sir Gwynedd: roedd y Cyngorwyr a fynychodd y cyfarfod yn fodlon iawn ar ei gynnwys a diolchwyd i Gyngor Gwynedd am wneud eu gorau i leihau effaith y toriadau ar yr ardal hon.

**10. Materion Cynllunio**

Cymeradwywyd Cais **NP5/53/T422B** i newid defnydd Bron y Graig i dŷ annedd fforddiadwy ac un uned gwyliau hunan cynhaliol.

**11. Materion Cyllid**

- i. Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Cytunwyd i wahodd John D Roberts i weithredu fel Archwilydd Mewnol.
- iii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis:
  - a. Ad-daliad TAW i Bartneriaeth Penllyn £6263.68
  - b. Ffi'r Archwilydd Mewnol am 2014-15: £85
  - c. Yswiriant – Cwmni Zurich £289.87
  - d. Dwy faner Cyngor Tref : £139.92
  - e. Rhent: £268
  - f. Cyflog y Clerc + costau teithio i gyfarfod ardal Un Llais yn cynrychioli'r Cyngor- £10.80
  - g. Costau teithio'r Cyngorwyr i hyfforddiant yn Nolgellau

**12. Gohebiaeth**

- i. Derbyniwyd llythyron o ddiolch am roddion ariannol a gwahoddiad i'r Maer gynrychioli'r dref yn Eisteddfod Llangollen.
- ii. Derbyniwyd a gweithredwyd ar ymholiad am fedd milwr a fu farw yn 1921.
- iii. Derbyniwyd cais i'r Cyngor Tref osod arwydd yn cyfeirio at gae chwarae Heol y Castell; cytunwyd i ateb mai Llywodraeth Cymru sydd â'r hawl i osod arwyddion ar y Stryd Fawr.

**13. Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr/cydlynnydd

**14. Asedau'r Cyngor** - derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr. Mae angen prisio'r asedau ar gyfer yr Archwilydd, a hefyd rhoi ystyriaeth bellach i ddiogelu'r Domen rhag camddefnydd.

Cytunodd y Maer i drafod cctv gydag aelod o'r Grŵp Busnes.

Cytunodd y Clerc i ymchwilio i'r egwyddor o osod *defibrillator* mewn man cyfleus, gan ystyried pris, diogelwch a hyfforddiant.

Er nad y Cyngor Tref a brynodd y baneri ar y polion lamp, cytunwyd fod y Cyngor yn barod i ystyried rhoi cymorth ariannol at eu cynnal, heb dderbyn cyfrifoldeb amdanynt.

**15. Materion lleol y Cynghorwyr Tref -**

- a. Cytunwyd i anfon cydymdeimlad y Cyngor yn dilyn marwolaeth Mr Robin Price. Mae'r dref wedi elwa llawer o'i gymwynasgarwch.
- b. Trafodwyd diogelwch a chyflwr cerflun Tom Ellis a chytunwyd i anfon pryderon y Cyngor at Gyngor Gwynedd yn ddiymdroi.
- c. Cytunwyd i anfon llythyr o ddiolch at Islwyn Pritchard-Jones yn mynegi gwerthfawrogiad o'i wasanaeth fel aelod o Gyngor y Dref a chyn-Faer.

16. Cyfarfod nesaf: 5/5/16. Bydd Cyfarfod Blynyddol yn gyntaf a chyfarfod mis Mai yn dilyn